

Dorchester Avenue a Winchester Avenue – Gwelliannau i'r Cyffyrdd

Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Mae cais wedi'i dderbyn gan Aelodau'r Ward Lleol ar gyfer Pen-y-lan i ymchwilio i'w pryderon ynghylch diogelwch ar y ffordd yn Dorchester Avenue. Cwblhawyd ymchwiliad Trafnidiaeth a oedd yn cynnwys asesiad llawn o'r lleoliad yn cynnwys data gwrthdrawiadau, llif traffig ac arolygon cyflymder.

Yn ôl yr arolygon a gwblhawyd, mae cerbydau'n defnyddio Dorchester Avenue a Winchester Avenue fel llwybr amgen er mwyn osgoi'r gyffordd sy'n rheoli traffig gyda signalau yn Colchester Avenue a Pen-y-Lan Road. Mae hyn yn mynd yn groes i'r cyfyngiad "Mynediad yn Unig" ar gyfer y ffordd mynediad lleol hon.

Cynigiwyd cynllun Projectau Trafnidiaeth i gyflwyno bolardiau yn Dorchester Avenue a Winchester Avenue ar eu cyffyrdd â Ffordd Pen-y-Lan. Aeth y cynnig trwy'r broses ymgynghori safonol, ac ar y cam ymgynghori cyhoeddus, derbyniwyd gwrthwynebiad cryf yn erbyn y cynllun arfaethedig i osod bolardiau a chau'r ffordd. Oherwydd y gwrthwynebiad llethol i'r cynllun blaenorol, gohiriwyd y cynllun. Cytunodd Aelodau'r Ward Leol na ddylid symud y cynnig hwn ymlaen bellach, a gofynnont i fesurau eraill gael eu hymchwilio.

Wedyn nodwyd bod cyllid ychwanegol ar gael bellach a gellir ei ddefnyddio tuag at gyflwyno mesurau diogelwch ar y ffordd amgen o amgylch cyffyrdd Dorchester Avenue a Winchester Avenue. Mae'r cyllid Adran 106 sydd ar gael bellach yn ganlyniad i ddatblygiad yn yr ardal a chytundeb lleol rhwng yr awdurdod lleol a'r datblygwyr. Fel arfer, priodolir y rhain i amodau caniatâd cynllunio pan fydd y Cyngor yn derbyn cyllid i weithredu gwelliannau neu fesurau lliniaru.

Oherwydd y cyllid ychwanegol hwn mae'r cynllun newydd hwn wedi'i ddylunio er mwyn cyflwyno cyffyrdd dyrchafedig gyda rhwystrau o gwmpas cyffyrdd Dorchester Avenue a Winchester Avenue. Bydd y byrddau arafu ar y cyffyrdd yn lleihau cyflymder y traffig er mwyn gwella diogelwch ar y ffordd a hygyrchedd ar gyfer cerddwyr yn y lleoliadau hyn; bydd y ffordd yn parhau'n agored i'r holl draffig cerbydau. Yn ogystal bydd gofyniad i gyflwyno llinellau melyn dwbl, sy'n dangos "Dim Aros Unrhyw Bryd" o gwmpas y cyffyrdd er mwyn dileu unrhyw barcio rhwystrol posibl.

Rhagor o Wybodaeth am fesurau rheoli traffig

Cyffordd Ddyrchafedig Mae darparu cyffordd ddyrchafedig yn debyg i dwmpath yn y ffordd. Codir y gyffordd gyfan i roi plattform, sy'n lleihau cyflymder cerbydau. Mae rhoi cyffordd ddyrchafedig yn darparu cyffordd fwy diogel trwy arafu pob cerbyd sy'n dod at y gyffordd, trwy roi allanfa fwy diogel o freichiau'r gyffordd.


Rhwystrau Ymwithiol wrth Gyffordd Mae hyn pan gaiff **rhwystrau ymwithiol** eu defnyddio wrth gyffordd. Yn y lleoliadau hyn, maent yn atal parcio cerbydau yn rhy agos at y gyffordd, yn gwella gwelededd a gallant hefyd roi **parcio a diogelir**.

Cyllid Cyffordd 106 Mae Cyffordd 106 (A106) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu o awdurdod cynllunio lleol (ACLL) i ymgymryd â chytundeb neu rywmedigaeth cynllunio sy'n gyfreithiol-rwym gyda thirfeddiannwr mewn cysylltiad â rhoi caniatâd cynllunio. Y term am y rhwymedigaeth yw Cytundeb Adran 106.

Mae'r cytundebau hyn yn ffordd o gyflawni neu o fynd i'r afael â materion sy'n angenrheidiol i sicrhau bod datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio. Cânt eu defnyddio'n fwyfwy i gefnogi darparu gwasanaethau a seilwaith, megis priffyrdd, cyfleusterau hamdden, addysg, iechyd a thai fforddiadwy.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **03/10/2017**



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at Cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **03/10/2017**